# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 11/12/2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 15/12/2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 22/12/2025 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd)

**PWNC**

Polisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd

**PENDERFYNIAD –**

Cymeradwyo'r polisi gorfodaeth ddiwygiedig ar gyfer Gwasanaethau Gwarchod y cyhoedd, Adran Amgylchedd sydd yn Atodiad 1.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Craig ap Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol, Adran Amgylchedd |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad | 11.12.2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Polisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cymeradwyo'r polisi gorfodaeth ddiwygiedig ar gyfer Gwasanaethau Gwarchod y cyhoedd, Adran Amgylchedd sydd yn Atodiad 1.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd Adran Amgylchedd yn gyfrifol am orfodi ystod eang o ddeddfwriaethau ar ran y Cyngor.

Er mwyn sicrhau fod swyddogion yn gorfodi'r deddfwriaethau hyn mewn modd cyson, teg a thryloyw mae angen polisi sy'n rhoi fframwaith i'r gwaith yma.

Mae angen polisi hefyd ar gyfer cynnig eglurder a threfn i fusnesau a thrigolion Gwynedd mewn perthynas ar gwaith gorfodaeth.

Mae Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wedi bod yn dilyn polisi gorfodaeth gafodd ei gymeradwyo yn 2011.

Ers hynny mae nifer o ddeddfwriaethau sy'n cyfarwyddo sut ddylid Awdurdodau Cyhoeddus ymgymryd â gwaith gorfodaeth wedi dod yn gyfraith gwlad, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud a chydraddoldeb a gwarchod data.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r angen am bolisi gorfodaeth sy'n cyfarwyddo gwaith gorfodaeth gwarchod y cyhoedd wedi ei sefydlu ac mae'r polisi presennol yn ei le ers cryn amser.

Mae polisi diwygiedig cyfredol wedi ei gynhyrchu sy'n adlewyrchu'r newidiadau i ddeddfwriaeth a threfniadau gorfodaeth llywodraeth leol ers cyhoeddi'r polisi gwreiddiol.

Noder fod rhesymeg glir a chyfiawnhad dros fabwysiadu polisi gorfodaeth ddiwygiedig.

**Ystyriaeth effaith**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (hynny yw sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

Mae'r Asesiad Effaith ar Bobl Gwynedd yn Atodiad 2 yn cynnwys asesiad cydraddoldeb ac yn dod i'r casgliad y bydd y Polisi Gorfodaeth yn cael effaith gadarnhaol, gan y bydd yn rhoi arweiniad clir ar drefniadau gorfodaeth i bawb heb wahaniaethu ar unrhyw nodwedd, ac na fydd yna unrhyw effaith negyddol. Rhoddir hefyd ystyriaeth i Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn cadarnhau y bydd gweithrediad y Polisi Gorfodaeth yn unol a Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor, ac felly ni fydd unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Polisi wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio fel y nodir yn yr Asesiad Effaith ar Bobl Gwynedd yn Atodiad 2.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir ac croesawu cyflwyniad y Polisi hwn er mwyn ffurfioli camau gweithredu. Bydd hyn yn gymorth i roi arweiniad i swyddogion, ac yn cefnogi amddiffyniad petai gweithredoedd yn cael ei herio. Nid oes cyfeiriad at yr angen am adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r penderfyniad felly disgwyliaf fod unrhyw gais am adnodd ychwanegol yn cael ei gyflwyno trwy'r drefn arferol.

**Swyddog Monitro**

Mae hwn yn bolisi pwysig sydd yn gosod fframwaith a chyfeiriad i ar gfyer gorfodaeth yn y maes pwysig yma . Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir

**Aelod/au Lleol**

Ddim yn berthnasol

**Atodiadau**

Atodiad 1: Polisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd

Atodiad 2: Asesiad Effaith ar Bobl Gwynedd

ATODIAD 1

# ADRAN YR AMGYLCHEDD

# GWARCHOD Y CYHOEDD

# POLISI GORFODAETH

# 2025

www.gwynedd.llyw.cymru

# Mynegai

## Rhan A: Cyflwyniad ac Egwyddorion Cyffredinol


1. Cyflwyniad 3
2. Nod y Polisi Gorfodaeth 3
3. Amcanion y Polisi 3
4. Beth yw Gorfodaeth? 5
5. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 5
6. Rhyddid Gwybodaeth 6
7. Diogelu Data 6
8. Ein Hymrwymiad i Chi 7
9. Cwynion 7


## Rhan B: Y Dull o fynd i'r afael â Gorfodaeth


10. Sut fyddwn ni'n gweithio yn ymarferol? 8
11. Sut fyddwn ni'n rheoleiddio'n effeithiol? 10


## Rhan C: Derbyn Tystiolaeth


12. Ymchwiliadau 15
13. Y Modd y Cynhelir Ymchwiliadau 15
14. Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig Gudd 16
15. Cyfweld Pobl sydd dan Amheuaeth 17
16. Partneriaethau Awdurdod Cynradd / Egwyddor Awdurdod Cartref 17


## Rhan D: Gorfodaeth


17. Beth sy'n digwydd pan fo'r ymdrech atal / cynghori yn methu? 18
18. Gweithredu Ffurfiol – Dewisiadau 20
19. Hygyrchedd a Chyngor 26
20. Adborth a Sylwadau 26


**Rheoli Dogfen**

| **Enw** | **Polisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd** |
|---|---|
| Fersiwn | 2 |
| Statws | Byw |
| Cynhyrchwyd gan | Gwarchod y Cyhoedd |
| Cymeradwywyd gan | |
| Swydd | |
| Llofnod | |
| Dyddiad cymeradwyo: | |
| Dyddiad adolygu nesaf | 1/04/26 |

# Rhan A: Cyflwyniad ac Egwyddorion Cyffredinol

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd yn cynnwys: Bwyd a Diogelwch, Safonau Masnach, Llygredd a Thrwyddedu.  Mae gan y gwasanaethau hyn gyfrifoldeb dros ymgymryd â chyfran sylweddol o ddyletswyddau rheoleiddio'r Cyngor mewn amrediad eang o feysydd.

1.2 Mae’r Awdurdod yn llwyr gydnabod bod angen i reoleiddio effeithiol fod yn gymesur ac yn ddigon hyblyg i sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, gan annog ffyniant economaidd ar yr un pryd.

1.3 Ein bwriad yw gweithio'n adeiladol gyda busnesau i sicrhau cystadleuaeth deg a chefnogi cymunedau lleol ffyniannus ac iach.

1.4 Mae'r polisi gorfodaeth hwn yn amlinellu'r egwyddorion, y ddeddfwriaeth a'r dulliau sylfaenol ar gyfer gweithgareddau gorfodaeth gwarchod y cyhoedd. Mae gofyn i swyddogion awdurdodedig ystyried y polisi hwn wrth gynnal unrhyw orfodaeth ar ran yr Awdurdod.

1.5 Datblygwyd y polisi gorfodaeth hwn wrth gyfeirio at ac wrth gydymffurfio â'r anghenion ac/neu gyfarwyddiadau a roddir o dan

Cod y Rheoleiddwyr
Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddio 2006
Deddf Hawliau Dynol 1998
Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
Deddf Gorfodaeth a Chosbau Rheoleiddiol 2008

## 2 Nod y Polisi Gorfodaeth

2.1 Nod y polisi gorfodaeth hwn yw egluro ein dull gorfodaeth yn y meysydd gwasanaeth yr ydym yn ymdrin â hwy mewn modd clir a chryno.

## 3 Amcanion y Polisi

3.1 Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i hybu dulliau effeithlon ac effeithiol o gynnal archwiliadau a gorfodaeth rheoleiddio sy’n hybu deilliannau rheoleiddio allweddol heb greu byrdwn diangen.

3.2 Byddwn yn defnyddio ein pwerau gorfodaeth i gwrdd â'r amcanion eang a ganlyn.

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Lleihau digwyddiadau o wenwyn bwyd a digwyddiadau niferus o afiechydon ymysg anifeiliaid
- Sicrhau bod llai o ddamweiniau, anafiadau ac afiechydon yn digwydd i weithwyr yn eu gwaith
- Sicrhau llai o lygredd a throseddau amgylcheddol
- Cyfrannu tuag at gymunedau mwy diogel a cryfach
- Sicrhau gwell lefelau o gydymffurfiaeth gan fusnesau

3.3 Byddwn yn mabwysiadu dull cadarnhaol, rhagweithiol a chytbwys i sicrhau cydymffurfiaeth. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio cyfuniad o:



3.4 Bydd y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi cyngor, gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth i fusnesau sy’n adlewyrchu anghenion a disgwyliadau busnesau unigol; ac yn ymgymryd ag ymyraethau sy'n seiliedig ar wybodaeth, wedi'u targedu ac yn gymesurol, pan ddeuir ar draws achosion o dorri rheoliadau.

3.5 Canolbwyntia'r polisi hwn yn bennaf ar reoleiddio'r gymuned fusnes, fodd bynnag mae nifer o swyddogaethau rheolaethol yn ymwneud â gorfodaeth yn erbyn unigolion. Pan ystyrir cymryd camau gorfodi yn erbyn unigolion, byddwn yn ystyried yr egwyddorion a'r safonau perthnasol a amlinellir yn y polisi hwn.

## 4 Beth yw Gorfodaeth?

4.1 Ceisia'r Awdurdod sicrhau bod dalwyr dyletswydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n diogelu pobl a busnesau rhag niwed. Cyflawnir hyn yn bennaf gan ddefnyddio arfau gorfodi sydd wedi'u hymgorffori o fewn y ddeddfwriaeth.

4.2 Gall ddaliwr dyletswydd fod yn unrhyw un lle mae'r gyfraith yn cyflwyno cyfrifoldeb arno/arni.

4.3 Mae gan y term 'niwed' ystyr eang. O safbwynt gwarchod y cyhoedd, gall niwed amrywio yn ei ystyr, o fod yn anaf i iechyd meddwl neu anaf gorfforol i unigolion, i anfantais economaidd i fusnes.

4.3 Mae gan y term 'gorfodaeth' ystyr eang hefyd. Yn ymarferol, gall gorfodaeth fod yn gyngor, rhybuddion ysgrifenedig, rhybuddion ffurfiol ac, yn y pen draw, erlyniad.

## 5 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

5.1 Bydd y Cyngor a'i swyddogion yn cymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i atal a chael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, ac annog perthynas dda rhwng bob parti, gan drin pawb sydd ynghlwm â pharch cyfartal, wrth ohebu â'r unigolion a'r busnesau hynny, a hefyd yn ystod gweithgareddau gorfodi.

5.2 Gwneir hyn beth bynnag fo tarddiad hil, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, credoau neu ddiffyg credoau crefyddol, iaith, cenedligrwydd yr unigolyn, ei gyfrifoldeb am unrhyw oedolion/plant dibynnol, neu unrhyw reswm arall.

5.3 Wrth i ni ymgysylltu gyda phobl sydd ag ystod eang o brofiadau ac anghenion, byddwn yn darparu gwasanaeth sy’n ystyried amgylchiadau unigryw pob unigolyn.

5.4 Wrth sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, rydym yn cydnabod yr angen i deilwra ein hymateb i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion unigol ac yn gweithredu ag uniondeb a pharch . Er enghraifft, gall hyn olygu trefnu cwrdd ag unigolyn gartref neu trefnu cefnogaeth er mwyn cynorthwyo i ddelio gyda mater penodol.

5.5 Mae'r polisi hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a gellir ei ddarparu mewn iaith neu fformat arall ar gais.

5.6 Gyda rhybudd ymlaen llaw, bydd yr Awdurdod hefyd yn trefnu gwasanaethau cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd addas a phriodol.

5.7 Bydd y Cyngor yn adolygu ei bolisïau a'i ymarferion yn rheolaidd er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol.

## 6 Rhyddid Gwybodaeth

6.1 Mae Cyngor Gwynedd yn agored, yn hygyrch ac yn onest wrth ymdrin â'r cyhoedd.

6.2 Mae Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn cefnogi amcanion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wrth hyrwyddo gonestrwydd a thryloywder, ac wrth roi i'r cyhoedd fynediad i wybodaeth wedi'i gofnodi a ddelir yn ein cronfeydd data.

6.3 Rydym yn cynnal nifer o gofrestrau sydd ar gael i'r cyhoedd gan gynnwys rhestr busnesau bwyd a daliadau amaethyddol y Sir ac amrywiaeth o eiddo trwyddedig.

6.4 Er mwyn annog cydymffurfiaeth, gallai Cyngor Gwynedd gyhoeddi adroddiadau arolwg a sgôr hylendid bwyd ar-lein. Ni enwir unrhyw unigolion yn yr adroddiadau a gyhoeddir, a bydd gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif hefyd yn cael ei hepgor. Efallai na fydd gwybodaeth yn ymwneud â busnes sy'n destun camau gorfodaeth ar y pryd yn cael ei chyhoeddi na'i darparu i eraill.

6.5 Gellir dod o hyd i fanylion ynghylch a sut i wneud cais am wybodaeth ar wefan yr Awdurdod: [www.gwynedd.llyw.cymru](www.gwynedd.llyw.cymru)

## 7 Diogelu Data

7.1 Mae'r data a ddaliwn wedi'i ddiogelu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Cedwir unrhyw ddata personol yn ddiogel, bydd yn gywir a bydd yn cael ei waredu pan nad oes ei angen bellach.

7.2 Rydym yn cadw ac yn prosesu gwybodaeth bersonol am bobl sydd â chyfrifoldeb /dyletswyddau a unigolion er mwyn ymgymryd â'n swyddogaethau statudol. Gallai hyn gynnwys enwau a manylion cyswllt unigolion cyfrifol a phobl sy'n cyflwyno cwynion sy'n ymwneud â'n gwaith.

7.3 Mae'n bosib y byddwn yn rhannu data personol y daliwn gydag asiantaethau gorfodaeth eraill sy'n destun yr un gofynion diogelu data. Cyn rhannu, byddwn yn ystyried sut i drosglwyddo'r wybodaeth yn ddiogel.

7.4 Gellir gweld trefniadau diogelu data cyffredinol yr Awdurdod yn www.gwynedd.llyw.cymru

## 8 Ein Hymrwymiad i Chi

8. 1 Mae'r Polisi hwn, a phob penderfyniad gorfodaeth, yn cymryd i ystyriaeth darpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998; Yn benodol, byddwn yn rhoi sylw dyledus i'r canlynol:

- Hawl i brawf teg
- Yr hawl i barch ar gyfer bywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.

8.2 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu mynediad agored, cyfartal ac amserol i'n gwasanaethau.

8.3 Gan ein bod yn ceisio gwella ein safonau'n barhaus, mae'r polisi hwn yn destun adolygiad rheolaidd.

## 9 Cwynion

9.1 Os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth yr ydych wedi'i dderbyn, neu os ydym wedi methu cwrdd ân addewidion, bydd rheolwyr bob amser yn fodlon trafod achos eich anfodlonrwydd gyda chi, a cheisio dod o hyd i ddatrysiad.

9.2 Os hoffech wneud cwyn neu anfon canmoliaeth neu sylw atom am ein gwasanaeth:

- cysylltwch â Phennaeth Cynorthwyol Adran yr Amgylchedd ar 01766 771 000 neu gwarchodycyhoedd@gwynedd.llyw.cymru

- Gallwch ddefnyddio gweithdrefn gwynion ar-lein Cyngor Gwynedd drwy ymweld â www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy gysylltu â'r Swyddog Gwella

Gwasanaethau yng Nghefnogaeth Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

9.3 Os ydych chi dal yn anfodlon, ac yn teimlo eich bod wedi bod yn destun anghyfiawnder, byddwn yn dweud wrthych sut i wneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

# Rhan B: Y Dull o fynd i'r afael â Gorfodaeth

## 10 Sut fyddwn ni'n gweithio yn ymarferol?

10.1 Rydym wedi mabwysiadu egwyddorion gorfodaeth llywodraeth leol ar orfodaeth dda, a byddem yn cadw at yr egwyddorion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Cyhoeddi Safonau ein Gwasanaeth:**

10.2 Byddwn yn cyhoeddi safonau gwasanaeth clir ac eglur.

**Bod yn agored ac yn dryloyw:**

10.3 Byddwn yn darparu gwybodaeth mewn iaith glir a syml ac egluro sut rydym yn bwriadu cefnogi busnesau cyfreithlon ac amddiffyn defnyddwyr a dinasyddion.

10.4 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth a chyngor mewn modd agored, ar fformat sy'n hygyrch ac yn hawdd ei ddeall.

10.5 Byddwn yn egluro'n glir natur unrhyw anghydffurfiaeth, y cyngor a roddwn, y camau gweithredu sydd eu hangen, a pham y gwneir y penderfyniadau a wneir.

10.6 Byddwn yn sicrhau bob amser fod gwahaniaeth glir rhwng y camau gweithredu sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r gyfraith, a'r camau gweithredu yr ydym ni'n eu hargymell fel ymarfer gorau ond nad ydynt yn orfodol.

10.7 Pan fo busnesau wedi gweithredu yn erbyn y gyfraith efallai y byddwn yn defnyddio cyhoeddusrwydd er mwyn codi ymwybyddiaeth, cynyddu cydymffurfiaeth a gwella monitro arferion masnach.

**Bod yn Gefnogol:**

10.8 Credwn fod yn well atal na gwella ac felly byddwn yn edrych ar ffyrdd o annog busnesau i ofyn am gymorth a chyngor fel y gallwn eu helpu i 'gael pethau'n gywir y tro cyntaf'.

10.9 Bydd ceisiadau am wasanaethau yn cael eu delio a hwy yn amserol ac yn effeithlon.

10.10 Lle bynnag y bo modd, bydd gweithgareddau gorfodaeth yn cael eu cydlynu i leihau unrhyw orgyffwrdd ac oedi diangen.

**Ymateb yn gadarnhaol i gwynion ynghylch ein gwasanaeth neu'n dull:**

10.11 Os byddwn yn dilyn y drefn yn gywir ni ddylem gael llawer o gwynion; fodd bynnag, mae gennym lwybr clir i adrodd am gwynion a'u datrys yn foddhaol.

**Cymryd camau cytbwys a synhwyrol pan ddoir ar draws achosion o dorri'r rheoliadau:**

10.12 Bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerwn yn gymesur ar risgiau a berir i'r cyhoedd, i eiddo ac i'r amgylchedd.

10.13 Hefyd, byddwn yn lleihau costau cydymffurfiaeth i fusnesau, drwy sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu y gofynnwn amdanynt yn gymesur ar risgiau. Cyn belled ag y bo'r gyfraith yn caniatáu, byddwn yn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau'r achos ac agwedd y gweithredwr wrth ystyried y camau gorfodaeth. Wrth ymgymryd â'n gweithgareddau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru cyfredol.

10.4 Lle bo modd, byddwn yn cymryd gofal arbennig i weithio gyda busnesau bach a gwirfoddol a sefydliadau cymunedol fel eu bod yn gallu cwrdd â'u goblygiadau cyfreithiol heb unrhyw gost ddiangen.

10.15 Wrth ymdrin ag aelodau unigol o'r cyhoedd, mewn modd gymesurol, cyn belled ag y bo'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu.

10.16 Lle bo modd, byddwn yn ceisio adnabod a chysylltu â phob unigolyn sydd ynghlwm â phob achos, ac yn cymryd camau sy'n cydbwyso'r niwed posib o ganiatáu i'r gweithgaredd barhau yn erbyn y gost neu'r anhwylustod i'r rheini sy'n gyfrifol.

**Bod yn deg ac yn gyson:**

10.17 Byddwn yn trin pob defnyddiwr a busnes mewn modd teg, cyfiawn a chyson.

10.18 Anelwn i ddarparu adborth cadarnhaol i fusnesau, lle mae hynny'n ddyledus.

10.19 Er y disgwylir i Swyddogion ymarfer barn mewn achosion unigol, bydd gennym gamau diogelu yn eu lle i hyrwyddo cysondeb gan gynnwys trefniadau effeithiol i gyd-gysylltu gydag awdurdodau a chyrff gorfodi eraill. Cyflawnir hyn drwy ddatblygu a hyfforddi staff, a defnyddio protocolau a gweithdrefnau ysgrifenedig lle bo hynny'n briodol.

10.20 Byddwn yn ystyried canllawiau cenedlaethol wrth wneud ein penderfyniadau.

**Bod yn Atebol**

10.21 Mae gan y Cyngor gynllun wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer dirprwyo hawl mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddio. Arweinir Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd gan swyddog ar lefel reolaethol sy'n adrodd i Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol Adran yr Amgylchedd.

10.22 Mae Pennaeth Adran yr Amgylchedd yn darparu cyngor a chefnogaeth broffesiynol i Aelodau etholedig, yn ogystal ag arwain a rheoli'r gwasanaeth. Fel arfer, diffinnir deilliannau rheoleiddio o fewn fframwaith Strategaeth Gwasanaeth/Cynlluniau Gwasanaeth sydd hefyd yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau gweithredol am y 12 mis nesaf.

10.23 Fel arfer cyhoeddir strategaethau a pholisïau'r gwasanaethau ac fe'u hysbysir yn gyffredinol gan anghenion a disgwyliadau grwpiau cleient allweddol a defnyddwyr y gwasaanaethau . Fel arfer, nodir anghenion a disgwyliadau yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol â'r grwpiau cleient ac adlewyrchir hyn yn y cynlluniau gwasanaeth. Gwneir gwaith rheolaidd a systematig gydol y flwyddyn i asesu lefelau bodlonrwydd cwsmer a thargedu gweithgareddau gwella lle sefydlir fod lefelau boddhad yn anfoddhaol.

10.24 Yn ychwanegol, yn gyffredinol mae Cynlluniau Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth fanwl am:

- Safonau gwasanaeth, e.e. amseroedd ymateb, oriau agor, ac ati.
- Deilliannau rheoleiddio
- Blaenoriaethau'r gwasanaeth, prosiectau a gweithgareddau gorfodi

## 11 Sut fyddwn ni'n rheoleiddio'n effeithiol?

11.1 Wrth ymgymryd â swyddogaeth reoleiddio, rhaid i Wasanaethau Gwarchod y Cyhoedd roi sylw i egwyddorion rheoleiddio da, sef cod y rheolyddion. Mae'r cod yn ategu egwyddorion gorfodaeth y llywodraeth leol ar orfodaeth dda.

11.2 Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gwasanaeth yn penderfynu nad yw rhan benodol o'r cod yn berthnasol i sefyllfa arbennig, neu y dylid rhoi blaenoriaeth i ran benodol o'r cod ar draul rhan arall. Bydd unrhyw benderfyniad nad yw'n dilyn y cod yn cael ei resymu'n briodol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei ddogfennu.

11.3 Byddwn yn rheoleiddio’n effeithiol drwy:

**Cefnogi Ffyniant Economaidd**

11.4 Un o'n prif swyddogaethau yw annog cynnydd economaidd tra’n gwarchod y cyhoedd . Lle bo modd, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda busnesau i'w cynorthwyo i gwrdd â'u goblygiadau cyfreithiol.

11.5 Mae’r polisi gorfodaeth hwn yn ystyried yn llawn yr angen i gefnogi busnesau cyfreithiol. Gweinyddir rhaglen o gyngor a gwybodaeth effeithiol yn y lle cyntaf er mwyn ‘cynorthwyo busnesau i gael pethau’n gywir y tro cyntaf.’ Mae'r dull hwn yn rhoi buddion i reolyddion a busnesau. Sefydlir ein dulliau gweithredol ar y meddylfryd ‘gwell atal na gwella’.

11.6 Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithio’n rhagweithiol i ddatblygu perthnasau adeiladol sy’n llawn ymddiriedaeth gyda busnesau lleol, yn enwedig busnesau newydd, fel eu bod yn hyderus o ran gofyn am help os fydd pethau’n mynd o chwith, yn hytrach na cheisio celu pethau a bod pethau’n gwaethygu.

- Deall a chymryd i ystyriaeth maint, cymhlethdod a sgôp gweithrediadau busnes i ddarparu lefel briodol a chymesurol o gyngor a chefnogaeth, gan roi ystyriaeth arbennig i effaith rheoleiddio ar fusnesau bach i ganolig.

- Ymgynghori â busnesau lleol, adnabod eu hanghenion a’u disgwyliadau a darparu lefel briodol o gyngor a chefnogaeth i fodloni neu ragori ar y disgwyliadau hynny.

- Darparu gwasanaeth cynghori ymatebol ac effeithiol i fusnesau fel y gallant gael mynediad at swyddogion o ansawdd uchel i’w cynorthwyo i gydymffurfio â’r gyfraith drwy ddarparu cyngor synhwyrol a phragmatig.

- Defnyddio ymyraethau wedi'u targedu sy'n seiliedig ar wybodaeth sydd wedi'i seilio ar asesiadau gwrthrychol o'r risgiau fel bo adnoddau yn cael eu cyfeirio'n briodol i'r mannau sydd yn wynebu'r risgiau uchaf.

- Datblygu system effeithiol i ddatrys anghydfod fel bod modd cyflawni'r deilliannau rheoleiddio cywir heb greu byrdwn diangen ar fusnesau.

- Adolygu ein polisïau, ein strategaethau a'n ymarferion yn systematig a rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac effeithiol o ran cyflawni deilliannau rheoleiddio heb roi byrdwn diangen ar fusnesau.

## Pennu ein hymdrech reolaethol ar sail risg.

11.7 Asesu risg effeithiol fydd yn arwain yr holl weithgarwch rheoleiddio a gorfodi. Bydd hyn yn ein hysbysu o sut ddylem ddefnyddio ein hadnoddau i ganolbwyntio ar ardaloedd o risg uchel fel y gellir eu defnyddio i gael yr effaith fwyaf i gefnogi busnesau ac amddiffyn defnyddwyr, gan arwain at well deilliannau rheoleiddio.

11.8 Byddwn yn defnyddio asesiadau risg i:

- Nodi'r tebygolrwydd o risgiau arwyddocaol i iechyd, cyfoeth neu lesiant pobl a chymunedau lleol, yr amgylchedd , masnachu teg a ffyniant economaidd; a

- Sicrhau bod ein gweithrediadau a'n ymyraethau yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o'r dystiolaeth orau sydd ar gael fel y targedir adnoddau'n effeithiol a llwyddiannus er mwyn lleihau'r risgiau mwyaf i bobl, cymunedau a busnesau cyfreithlon lleol.

11.9 Mae'n fframwaith asesu risg yn gynhwysfawr ac yn cynnwys asesiad o effaith gronnus:

- diffyg cydymffurfio gyda ddeilliannau rheoleiddio; a'r
- tebygolrwydd y bydd y diffyg cydymffurfiaeth hwnnw'n digwydd.

11.10 Bydd ein dull sy'n seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth yn hysbysu datblygiad rhaglen o archwiliadau wedi'u cynllunio, y cydbwysedd rhwng gweithgarwch ataliol a chydymffurfiaeth ynghyd a defnydd technegau gorfodi a sancsiynau priodol yn unol â pholisïau wedi'u diffinio'n glir.

11.11 Wrth werthuso pa mor debygol ydyw diffyg cydymffurfiaeth, byddwn yn ystyried y ffactorau a ganlyn:

- cydymffurfiaeth y busnes yn y gorffennol a'r risgiau posib i hyn yn y dyfodol;
- bodolaeth systemau rheoli risg effeithiol;
- tystiolaeth o ardystiadau rheolaidd ac effeithiol gan drydydd partïon; a
- cymhwysedd rheolwyr a'u parodrwydd i gydymffurfio.

**Canolbwyntio ar Atal**

11.12 Un o'r prif bethau y byddwn yn canolbwyntio arno mewn perthynas ag atal tor cyfraith yw datblygu perthnasau gweithio cadarnhaol ac adeiladol gyda busnesau drwy rwydweithiau a chysylltiadau presennol a thrwy greu swyddogaeth cefnogi busnes a dyhead i greu un pwynt cyswllt ar gyfer pob ymholiad rheoleiddio. Deallwn y gall busnesau bychan yn benodol gael eu llethu gan raddfa a chymhlethdod y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'w gweithrediadau busnes. Ymdrechir i ddarparu mynediad hawdd i gyngor, gwybodaeth syml, glir a chryno a chyngor dilynol pan fo angen. Lle bo canllawiau cenedlaethol yn bodoli, byddwn yn eu hyrwyddo i sicrhau cysondeb. Fodd bynnag, os nad oes canllawiau cenedlaethol yn bodoli, byddwn yn ymdrechu i ymgynghori â busnesau i sicrhau bod canllawiau a ddatblygwyd yn lleol yn bodloni eu hanghenion penodol, lle bo'n synhwyrol ac ymarferol i wneud hynny.

11.13 Pan fyddwn yn ymdrin â busnesau, ceisiwn bob amser i wneud yr hyn a ganlyn:

- rhoi gwybod iddynt am unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n debygol o effeithio ar eu busnes cyn gynted ag y down i wybod amdano a defnyddio'r un egwyddor o ran newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol;

- darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n seiliedig ar y sector lle bo hynny'n angenrheidiol a phriodol;

- darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cyffredinol i'w gwneud yn haws i fusnesau ddeall a gweithredu'r hyn sydd angen ei wneud;

- sicrhau bod y wybodaeth, cyngor a chanllawiau yr ydym yn ei ddarparu yn syml, clir a chryno ac ar gael mewn sawl diwyg a chyfrwng; ac

- asesu ansawdd a hygyrchedd ein gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn rheolaidd a systematig i sicrhau ei fod yn dal yn gywir, dibynadwy a phwrpasol drwy asesu lefelau boddhad busnesau.

11.14 Wrth ymdrin â busnesau, byddwn yn ceisio sicrhau ar bob achlysur ein bod yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol penodol a chanllawiau / arferion gorau sydd wedi'u hanelu at gyflwyno gwelliannau sy'n fwy na'r safonau

gofynnol.  Fodd bynnag, byddwn yn ceisio annog busnesau yn frwd i gwrdd a safonau uwch ac yn cynorthwyo a chefnogi'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny.

11.15 Fel arfer, darperir gwasanaethau cynghori yn rhad ac am ddim.  Pan fydd ffioedd yn daladwy, byddwn yn hysbysu'r cwsmer o hyn cyn y darparir unrhyw un o'r gwasanaethau dan sylw i'r gymuned fusnes.  Er enghraifft, darpariaeth cyngor penodol wedi'i deilwra yn dilyn cais ysgrifenedig gan fusnes lleol.

**Targedu Ymweliadau Archwilio**

11.16  *Dim archwiliad heb reswm dilys* **-** Byddwn yn ymdrechu i beidio ag ymgymryd ag unrhyw ymweliadau archwilio i eiddo busnes oni bai bod rheswm cyfiawnadwy penodol dros wneud hynny.

11.17  *Adborth amserol ac effeithiol* **-** Ar ddiwedd unrhyw ymweliad archwilio, bydd ein swyddogion yn rhoi datganiad ar lafar ynghylch yr hyn y maent wedi'i weld er mwyn ceisio dod i gytundeb ar y camau sydd angen eu cymryd i gywiro'r sefyllfa.  Fel arfer, bydd unrhyw gyngor, ganllawiau neu gyfarwyddiadau penodol yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig.

11.18  *Ymweliadau Archwilio ar y Cyd* **-** Byddwn yn ceisio cydlynu ein rhaglenni archwilio, fel nad yw busnesau yn gorfod cael sawl archwiliad ar wahân.

**Adolygu Prosesau ar gyfer Gwneud Cais am Wybodaeth**

11.18  *Cadw nifer y ceisiadau am wybodaeth mor isel â phosib* **-** Byddwn yn ceisio sicrhau nad ydym yn gofyn i fusnesau am wybodaeth oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth allweddol a byddwn yn datblygu systemau gwybodaeth i osgoi unrhyw sefyllfaoedd lle rydym yn gofyn am yr un wybodaeth fwy nag unwaith.

11.19  *Cynnig dewis yn y ffordd y gall busnesau ddarparu gwybodaeth* – Pan fo rhaid darparu gwybodaeth, byddwn yn ceisio sicrhau bod y systemau a'r prosesau ar gyfer darparu gwybodaeth o'r fath yn glir, syml a hygyrch.

11.20  *Diogelu Data -* Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddata neu wybodaeth sydd gennym yn gywir, yn cael ei sortio yn rheolaidd ac yn cael ei storio yn ddiogel, yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

11.21 *Defnyddio Dulliau Gorfodi wedi'u targedu sy'n seiliedig ar wybodaeth* **–** Bydd y data a ddelir neu a geisir gennym yn cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth a thargedu ein gwaith gorfodaeth.

# Rhan C: Derbyn Tystiolaeth

## 12 Ymchwiliadau

12.1 Bydd ymchwiliadau yn cael eu cynnal i sefydlu;

- i) Y ffeithiau a'r rheswm dros achos
- ii) Oes camau wedi eu cymryd neu a ddylid eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r gyfraith
- iii) Sail ddigonol i hysbysu penderfyniad gorfodaeth neu ymateb priodol

12.2 Mewn rhai amgylchiadau, mae gan y gwasanaethau ddisgresiwn o ran penderfynu cynnal ymchwiliad ai peidio. Ffactorau i'w hystyried:

- iv) Difrifoldeb a graddfa'r niwed posib neu wirioneddol
- v) Hanes blaenorol y daliwr dyletswydd neu unigolyn o gydymffurfiaeth.
- vi) Blaenoriaethau Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd
- vii) Y tebygolrwydd o gyflawni'r deilliant a ddymunir.
- viii) A yw'r mater dan ystyriaeth o bryder difrifol i breswylwyr Gwynedd?

12.3 Bydd Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi sylw i gyngor Awdurdodau eraill megis y Gweithgor Iechyd a Diogelwch neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i unrhyw ddigwyddiad.

## 13 Y Modd y Cynhelir Ymchwiliadau

13.1 Bydd pob ymchwiliad yn cael ei gynnal yn unol â gofynion deddfwriaethol cyfredol ac unrhyw god ymarfer neu ganllawiau cysylltiedig.

13.2 Pan fo'r gwasanaeth yn rhannu swyddogaeth orfodi gydag asiantaethau gorfodaeth eraill megis yr Heddlu neu'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch, byddwn yn ystyried y trefniadau blaenoriaeth, cytundebau gorfodi ac unrhyw swyddogaethau / blaenoriaethau gorfodi dynodedig cyfredol sydd wedi'u cytuno a'u dogfennu.

13.3 Pan fydd troseddwyr wedi cyflawni mwy nag un trosedd dros nifer o ardaloedd awdurdodau lleol, bydd y Gwasanaeth yn edrych i ymrwymo i gytundebau cyfreithiol gyda Chynghorau eraill er mwyn i un awdurdod arwain y camau gorfodi, megis erlyniad. Gwneir hyn o dan bwerau galluogi sef y rheini sydd wedi'u cynnwys yn y Deddfau Llywodraeth Leol.

13.4 Pan fo swyddogion yn ymgymryd â gwaith gorfodaeth mewn eiddo sydd dan berchnogaeth / rheolaeth Awdurdod Lleol, er enghraifft gorfodaeth diogelwch bwyd mewn ysgolion a chartrefi gofal, bydd y dull a ddefnyddir o ran ymchwilio ac adrodd yn adlewyrchu'r hynny a ddefnyddir mewn busnesau preifat.

13.5 Lle ceir diffyg cydymffurfiaeth arwyddocaol gyda gofynion statudol neu lle mae enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth barhaus yn cael eu hadnabod, bydd y materion yn cael eu hadrodd i'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol er ystyriaeth / gweithrediad.

13.6 Yn ogystal â'r egwyddorion a nodir yn y Polisi hwn, bydd swyddogion yn ymddwyn yn broffesiynol a chwrtais bob amser. Bydd swyddogion, fel bo'r amgylchiadau yn caniatáu, yn datgan pwy ydyn nhw a beth yw rhinwedd eu swyddogaeth wrth unrhyw un ag awdurdod yn y busnes. Fodd bynnag, gall fod rhai achosion pan fo swyddogion yn peidio â datgan pwy ydyn nhw hyd yn ddiweddarach yn ystod ymchwiliad. Bydd swyddogion yn cario eu cerdyn adnabod neu /ac awdurdodiad gyda hwy ac yn ei ddangos fel fo'n briodol.

13.7 Bydd swyddogion yn ymgysylltu ag unigolion a grwpiau mewn modd deg, yn adeiladol ac yn effeithiol heb wahaniaethu.

## 14 Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig Gudd

14.1 Pan fo Gwasanaeth yn dymuno casglu tystiolaeth neu wybodaeth, bydd gofynion y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) yn cael eu dilyn.

14 Bydd gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn cael ei gynnal drwy ddilyn yr awdurdodiad angenrheidiol yn unig, a bydd ond yn cael ei ddefnyddio i ganfod trosedd sy'n denu dedfryd o garchar o chwe mis neu hirach neu sy'n ymwneud â gwerthu alcohol neu dybaco i bobl dan oed.

14.3 Dan yr amgylchiadau annhebygol y bydd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ceisio derbyn gwasanaethau ffynhonnell ddynol ddirgel o gudd-wybodaeth (CHIS), gwneir hyn wrth ddilyn y drefn awdurdodiad angenrheidiol yn unig, ac yn unol â chanllawiau cyfredol.

14.3 Nid oes gan Wasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yr hawl i ymgymryd â gwyliadwriaeth ymwthiol.

## 15 Cyfweld Pobl sydd dan Amheuaeth

15.1 Gallai Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd gynnal cyfweliad ffurfiol â pherson y maent yn amau sydd wedi cyflawni trosedd. Cynhelir y fath gyfweliadau o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE).

15.2 Gellir cynnal cyfweliadau o dan rybudd (Cyfweliadau PACE) mewn swyddfa yn y Cyngor neu gan swyddogion yn y maes. Bydd ymateb person dan amheuaeth i gwestiynau y tu allan i amgylchedd swyddfa yn cael eu dogfennu gan y cyfwelydd, a gofynnir i'r person dan amheuaeth gydnabod ei gywirdeb drwy arwyddo a dyddio'r cofnod ysgrifenedig.

15.3 Gall y person sy'n cael ei gyfweld ddod â chyfreithiwr neu gynrychiolydd cyfreithiol i gyfweliad.

15.4 Bydd pob person dan amheuaeth yn cael ei rybuddio cyn y cyfweliad. Rhaid i'r swyddogion sy'n cyfweld fod yn fodlon bod person dan amheuaeth yn deall y rhybudd cyn gofyn cwestiynau iddynt.

15.5 Gellir cynnal cyfweliad PACE drwy lythyr. Bydd unrhyw ohebiaeth cyfweliad PACE yn cynnwys rhybudd. Bydd y cwestiynau'n glir ac yn hawdd eu deall.

15.6 Bydd swyddogion ymchwilio yn sicrhau bod unrhyw un sy'n cael ei gyfweld yn deall y rheswm y mae'n cael ei gwestiynu.

15.7 O dan ddeddfwriaeth benodol, mae gan swyddogion y grym i ofyn i unigolion ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i ymchwiliad. Yn hyn o beth, bydd eu pwerau'n cael eu hegluro i unrhyw unigolyn sy'n destun y fath gais.

## 16 Partneriaethau Awdurdod Cynradd / Egwyddor Awdurdod Cartref

16.1 Mae'r Cynllun Awdurdod Cynradd yn drefniant ffurfiol lle gall busnesau neu grwpiau masnach dderbyn cyngor pendant wedi'i deilwra er mwyn cwrdd â rheoliadau iechyd yr amgylchedd, safonau masnach neu ddiogelwch tân gan Awdurdod.

16.2 O dan y cynllun, mae busnesau neu grwpiau masnach yn ymrwymo i bartneriaeth ffurfiol, gyfreithiol gyda Chyngor neu awdurdod tân. Disgwylir i'r busnes gwrdd â chostau'r awdurdod sy'n darparu cyngor / sicrwydd.

16.3 Mae'r Egwyddor Awdurdod Cartref yn gynllun sy'n ôl-ddyddio'r cynllun awdurdod cynradd. O dan y cynllun hwn, gall busnesau ffurfio partneriaeth gyda'r awdurdod lleol yn yr ardal lle maent wedi'u lleoli, yn lle maen nhw'n masnachu, neu ddarparu gwasanaethau sy'n cael effaith y tu hwnt i'w 'hawdurdod cartref'.

16.4 O dan y cynllun, gall busnesau dderbyn cyngor a chymorth gan yr awdurdod cartref ar faterion megis gofynion cyfreithiol, newidiadau i'r gyfraith, ac ati.

16.5 Nid yw Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gytundeb Awdurdod Cynradd neu Awdurdod Cartref. Fodd bynnag, lle bo adnoddau'n caniatáu, bydd y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn ceisio dilyn yr egwyddor awdurdod cartref ar gyfer busnesau wedi'u lleoli yn ein hardal ni.

16.6 Bydd Swyddogion Gorfodaeth yn rhoi ystyriaeth i'r ddau gynllun wrth ymgymryd â'u dyletswyddau, a byddant yn cyfeirio'n benodol at unrhyw gyfarwyddyd a nodir mewn gorfodaeth unigol rhwng Awdurdodau Cynradd a'u partneriaeth busnes priodol.

# Rhan D: Gorfodaeth

## 17 Beth sy'n digwydd pan fo'r dull o atal / cynghori yn methu?

17.1 Rydym yn cydnabod bod mwyafrif y busnesau y down i gysylltiad â hwy yn gyfreithlon a'u bod yn dymuno ymgysylltu mewn modd adeiladol â'r rheoleiddwyr. Bydd ein dull yn wahanol o ran unigolion a busnesau sy'n:

- gweithredu'n dwyllodrus neu'n annheg; ac / neu
- defnyddio arferion masnachu annheg ac yn methu â dilyn cyngor; ac/neu
- rhoi iechyd, diogelwch a lles staff, cwsmeriaid a defnyddwyr mewn perygl; ac/neu

- methu â dilyn cyngor ynghylch gofynion cyfreithiol yn barhaus, er gwaethaf sawl ymdrech ar ran y rheoleiddiwr i sicrhau cydymffurfiaeth; ac/neu
- ceisio cael mantais gystadleuol dros fusnesau cyfreithlon drwy ddilyn arferion masnachu twyllodrus neu annheg.

17.2 Pan fo tystiolaeth o fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar gael, ystyrir dilyn y dulliau isod, yn ôl eu trefn:

**Cam 1 Hyrwyddo** - fel rhan o'n rhaglen barhaus o roi cyngor, gwybodaeth a chymorth byddwn yn ceisio darbwyllo'r busnes i fabwysiadu arferion da a chynyddu dealltwriaeth y busnes o'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau gwell cydymffurfiaeth.

**Cam 2 Rhybuddion anffurfiol -** defnyddir y rhain pan fo tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio ond nad yw natur y diffyg hwnnw yn gwarantu cymryd camau ffurfiol.

**Cam 3 Camau Gweithredu Ffurfiol -** mae hyn yn cynnwys cyflwyno rhybuddion statudol, ymrwymiadau ysgrifenedig a gorchmynion gorfodaeth; gwrthod caniatáu trwydded neu gofrestriad neu ddiddymu trwydded neu gofrestriad; cyflwyno rhybuddion, hysbysiad cosb benodedig, hysbysiadau cosb am gamymddwyn ac / neu erlyniad.

17.3 Dim ond pan fydd pob ymdrech resymol arall i sicrhau gorfodaeth wedi'i gwneud yr ystyrir cymryd camau gorfodi ffurfiol, ac eithrio pan fo angen gweithredu ar unwaith i atal neu ymateb i achos difrifol o dorri'r rheoliadau / risg ddifrifol i iechyd.

17.4 Pan fo ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud, ond wedi methu â:

- chyflawni cydymffurfiaeth yn cynnwys: defnyddio dulliau cadarnhaol i gymell y busnes i gyflawni gwelliannau mewn amgylchiadau priodol;
- newid ymddygiad y troseddwr;
- cael gwared ar unrhyw fantais neu fudd ariannol a geir wrth beidio â chydymffurfio;
- atal y niwed neu'r difrod a achoswyd yn sgil yr ymddygiad troseddol; a
- cymryd camau i rwystro diffyg cydymffurfiaeth yn y dyfodol

ni fydd unrhyw ddewis arall ond cymryd camau gorfodaeth ffurfiol.

17.5 Byddwn yn sicrhau bod ein swyddogion yn gwbl ymwybodol ac wedi'u hymrwymo i ddilyn y polisïau a'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon drwy raglen o ddysgu a datblygu a rheoli prosesau adolygu.  Ein nod yw sicrhau bod y polisi'n cael ei ddefnyddio'n deg a chyson ar draws pob maes gwasanaeth fel ein bod yn cyflawni lefelau uchel o gydymffurfio heb fod angen defnyddio camau gorfodi llym. Bydd swyddogion yn cymryd camau gorfodi ar ran yr awdurdod y maent wedi cael ei awdurdodi ar ei gyfer yn unig.

## 18 Gweithredu Ffurfiol - Dewisiadau

**Rhybuddion Statudol (Cyfreithiol)**

18.1 Mae deddfwriaeth a orfodir gan y Cyngor yn darparu ar gyfer cyflwyno rhybuddion statudol. Mae'r rhybuddion hyn yn mynnu fod person, busnes neu sefydliad gydymffurfio â gofynion cyfreithiol penodol. Pan gyflwynir rhybudd ffurfiol a lle bo'n berthnasol, rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig i'r sawl sy'n cael y rhybudd ynghylch sut i apelio yn ei erbyn (h.y. os yw'r sawl sydd wedi cael y rhybudd yn teimlo ei fod yn anghyfiawn neu fod gormod o ofynion ynddo). Bydd y rhybudd  yn egluro beth sy'n bod, beth sydd angen ei wneud i gywiro pethau ac yn rhoi amlinelliad o beth fydd yn digwydd os bydd y sawl sy'n ei dderbyn yn methu â chydymffurfio ag ef.

18.2 Yn gyffredinol, os bydd y person / busnes dan sylw yn methu â chydymffurfio ag rhybudd statudol sydd wedi'i ysgrifennu a'i gyflwyno'n briodol, yna bydd yn agored i erlyniad. Mewn rhai achosion, gall y Cyngor wneud gwaith er mwyn cydymffurfio â'r rhybudd a phan wna hynny gall adennill cost y gwaith gan y sawl a'i dderbyniodd. Nid yw cyflwyno rhybudd yn atal yr Awdurdod rhag dechrau erlyniad.

**Rhybudd Cosb Benodedig, Rhybuddion Cosb am Anhrefn a Rhybuddion Gwarchod y Gymuned**

18.3 Gellir defnyddio rhybudd cosb benodedig neu rhybudd cosb am anhrefn fel ffordd o gael gwared ar y drosedd yn hytrach na thrwy erlyn. Dyma gyfle i'r troseddwr osgoi collfarn os ydynt yn dewis talu dirwy yn lle hynny. Nid yw peidio â thalu hysbysiad cosb yn drosedd ynddo'i hun ac os na fydd derbynnydd y rhybudd cosb yn talu'r ddirwy gall y cyngor ei erlyn am y drosedd ei hun.

18.4 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol o ran defnyddio rhybuddion cosb penodedig. Medr rhybudd cosb penodedig gael ei gyflwyno heb rybudd ymlaen llaw. Bydd yr amodau a ganlyn yn cael eu bodloni:

(a) rhaid bod tystiolaeth ddigonol i roi rhagolwg realistig o gollfarn;
(b) nid yw'r drosedd yn rhy ddifrifol ac mae'n addas ymdrin â throsedd o'r fath gyda rhybudd cosb.

18.5 Bydd y gwasanaeth hefyd yn dilyn canllawiau perthnasol wrth gyflwyno'r fath rybuddion i bobl ifanc, unigolion bregus, pobl ag anawsterau dysgu neu bobl sydd â chyflwr iechyd meddwl sy'n effeithio ar eu meddwl / barn resymegol.

18.6 Bydd pobl ifanc sy'n dewis peidio â thalu rhybudd yn cael eu cyfeirio i Raglen Ymyrraeth Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i dalu'r ddirwy mewn modd gwahanol.

18.7 Fel arfer, ni roddir rhybudd cosb benodedig i blant rhwng 10 a 15 mlwydd oed ar gyfer digwyddiadau unigol. Lle bo modd, bydd rhiant neu warcheidwad y plentyn yn cael eu hysbysu o'r drosedd.

18.8 Pan fo plentyn rhwng 10 a 15 mlwydd oed yn aildroseddu ac ystyrir bod rhybudd cosb benodedig yn briodol, dylid cyflwyno'r rhybudd, gyda llythyr o eglurhad, drwy'r post i'r rhieni neu'r gwarchodwr cyfreithiol.

18.9 Gellir cyflwyno rhybuddion Gwarchod y Gymuned i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus sy'n effeithio ar gymuned. Gall methu â chydymffurfio â hyn arwain at erlyniad.

18.10 Bydd pob rhybudd o'r fath yn cynnwys manylion y weithdrefn apelio berthnasol.

**Ataliadau, Dirymiadau ac Adolygiadau**

18.11 Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o drwyddedau a hawlenni gan gynnwys trwyddedau tacsi ac adloniant cyhoeddus, trwyddedau meysydd carafanau a hawlenni amgylcheddol. Bydd pob trwydded a hawlen yn cynnwys amodau a allai, os ydynt yn cael eu torri, arwain at adolygiad, ataliad neu ddirymiad.

18.12 Bydd y gwasanaeth yn dilyn y gweithdrefnau neu'r canllawiau perthnasol sydd ar gael o ran ymdrin â thorri rheoliadau trwydded, cofrestriad neu hawlen.

**Gorchmynion Rhan 2A**

18.13 O dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus, gallai'r Cyngor ymgeisio am orchymyn rhan '2A' i ymdrin â bygythiadau penodol i iechyd dynol sy'n codi o halogiad neu haint. Rhaid gwneud cais i'r Ynadon Heddwch am y fath orchymyn cyn ei gyflwyno. Gall orchymyn fynnu, ymysg pethau eraill, bod person yn cael ei gadw'n gaeth a'i fod yn destun triniaeth feddygol, bod gweithgaredd yn cael ei ymatal, neu fod eitem neu offer yn cael ei ildio neu ei ddinistrio.

**Gwaharddebau, Ymrwymiadau a Gorchmynion Gorfodi**

18.14 Pan fo unigolyn neu sefydliad yn methu â chydymffurfio â'r gyfraith yn barhaus, gall y Cyngor ofyn am ymrwymiad ysgrifenedig gan y person hwnnw'n nodi y bydd yn rhoi'r gorau i wneud yr hyn a gwynir amdano. Yn y fath amgylchiadau, gall y Cyngor benderfynu na chymerir unrhyw gamau ffurfiol pellach.

18.15 Mewn achosion pan fo unigolyn neu sefydliad wedi torri'r rheoliadau neu wedi gwrthod darparu ymrwymiad ysgrifenedig i roi'r gorau i'r weithred y cwynir amdani, gellir gwneud cais i'r llys am orchymyn gorfodi, neu am unrhyw gamau ffurfiol eraill yn unol â'r darpariaethau cyfreithiol perthnasol. Er enghraifft, yn unol a 'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Heddlu 2014 gallwn wneud cais i ynadon am orchymyn cau eiddo am hyd at 3 mis ar y tro, lle profir fod yr eiddo yn ymgymryd ag ymddygiad troseddol, neu'n achosi niwsans i'r Cyhoedd.

**Ildio, atafaelu, fforffedu gwirfoddol**

18.16 Mae'r gwasanaethau'n gorfodi nifer o ddeddfau statudol sy'n caniatáu ar gyfer cadw ac atafaelu offer, nwyddau neu ddogfennau, naill ai fel tystiolaeth neu i atal niwed. Ymhellach at hynny, mae darpariaethau ffurfiol i ymrwymo i gytundeb ildio nwyddau'n wirfoddol a chau busnesau penodol yn wirfoddol.

18.17 Pan fo camau gorfodi ffurfiol o'r fath yn cael eu cymryd, rhoddir cadarnhad ysgrifenedig i'r unigolion yr effeithir yn egluro'r rheswm dros hyn, ynghyd ag eglurhad o'u hawliau. Gellir ystyried fforffedu fel dewis pan ystyrir bod tynnu nwyddau / cynnyrch oddi ar y farchnad yn angenrheidiol.

**Gorchmynion Cyfyngu ar Dybaco.**

18.18 Pan fo tybaco'n cael ei werthu i bobl ifanc yn rheolaidd, gallai'r gwasanaeth gyflwyno cwyn i'r llys a gwneud cais am orchymyn eiddo dan gyfyngiad neu orchymyn gwerthu o dan gyfyngiad. Gall orchymyn wahardd unigolyn rhag gwerthu tybaco neu ddefnyddio eiddo i werthu tybaco am hyd at flwyddyn.

**Cymryd anifeiliaid i feddiant**

18.19 O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, os yw milfeddyg yn ardystio bod 'anifeiliaid gwarchodedig' yn dioddef neu'n debygol o ddioddef os na fydd eu hamgylchiadau'n newid, byddwn yn ystyried eu cymryd i'w meddiant a gwneud cais am Orchmynion ar gyfer ad-daliad costau oherwydd hyn, ynghyd a unrhyw gostau gwaredu anifeiliaid a ddilynir***.***

**Rhybuddion Syml**

18.20 Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol rhoi rhybudd yn hytrach nag erlyn. Ystyrir yr opsiwn hwn cyn erlyn. Mae cael rhybudd yn fater difrifol. Cofnodir y rhybudd ar y Gofrestr Ganolog o Gollfarnau a gellir ei ddefnyddio i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad p’un i ddechrau ar achos llys os bydd y person yn aildroseddu. Gellid cyfeirio ato mewn unrhyw achos llys dilynol, os yw hyn yn unol â'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr.

18.21 Ar gyfer y ddeddfwriaeth yr ydym yn ei gorfodi, gellir ond cynnig rhybuddion syml ar gyfer troseddau ditiadwy penodol, a rhaid i'r Awdurdod fod yn hyderus y bydd y rhybudd yn effeithiol i atal aildroseddu.

18.22 Mae'r un profion sydd eu hangen ar gyfer erlyniad yn berthnasol - y prawf tystiolaethol a'r prawf budd cyhoeddus.

18.23 Gellir defnyddio rhybuddion er mwyn:

a) ymdrin â throseddwyr llai difrifol yn gyflym a syml;
b) osgoi ymddangosiad diangen yn y llysoedd troseddol;
c) lleihau’r siawns y bydd y troseddwr yn aildroseddu.

18.24 Byddwn yn cydymffurfio â chanllawiau’r Swyddfa Gartref o ran rhybuddio oedolion sy’n troseddu, ac yn benodol cyn rhoi rhybudd rhaid bodloni’r amodau a ganlyn:

(a) rhaid bod tystiolaeth ddigonol fod y person yn euog er mwyn cael rhagolwg realistig o gollfarn;
(b) rhaid i’r troseddwr dan amheuaeth gyfaddef ei fod wedi troseddu a

gwneir hynny fel arfer drwy arwyddo datganiad;
(c) rhaid i'r troseddwr dan amheuaeth ddeall arwyddocâd y rhybudd, a chytuno i'r rhybudd.

**Erlyniadau**

18.25 Bydd y Cyngor yn defnyddio'i ddisgresiwn wrth benderfynu p'un ag ydyw am ddechrau camau cyfreithiol i erlyn ai peidio. Pan fo'r amgylchiadau yn cyfiawnhau hynny, gellir erlyn heb roi rhybudd ymlaen llaw.

18.25 Bydd y Cyngor yn ystyried erlyn pan:

(a) pan fo'n briodol gwneud hynny dan yr amgylchiadau, fel ffordd o dynnu sylw at yr angen i gydymffurfio â'r gyfraith, yn enwedig pan fyddai disgwyl erlyniad fel arfer;
(b) pan fyddai eraill yn cael eu hatal rhag troseddu wrth weld collfarnau yn erbyn eraill;
(c) pan fo posibilrwydd am niwed sylweddol o ganlyniad i'r weithred droseddol;
(d) pan fo difrifoldeb y drosedd, ynghyd â record a dull cyffredinol y troseddwr yn cyfiawnhau hynny.

18.27 Ystyrir y meini prawf a nodir yng '***Nghod Erlynyddion y Goron'*** wrth benderfynu p'un a ddylid erlyn neu beidio.

18.28 Byddwn yn defnyddio dau 'brawf': **Y Prawf Tystiolaethol** a'r **Prawf Budd Cyhoeddus** cyn penderfynu p'un ai i barhau gydag erlyniad ai peidio.

18.29 O ran y Prawf Tystiolaethol, byddwn yn bodloni ein hunain bod digon o dystiolaeth i roi 'rhagolwg realistig o gollfarn' yn erbyn pob diffynnydd am bob cyhuddiad. Mae hwn yn brawf gwrthrychol sy'n golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon sy'n cael eu cyfeirio'n briodol yn unol â'r gyfraith, yn debygol o gael y diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad.

18.30 Ar gyfer y prawf budd cyhoeddus, fel arfer ystyrir y meini prawf a ganlyn wrth benderfynu ar berthnasedd cymryd camau cyfreithiol, er nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr:

- Amlder a math y drosedd
- Yr angen am arf ataliol addas
- Y risg o berygl neu anaf i'r cyhoedd
- Y methiant i gydymffurfio â rhybudd statudol neu ymateb i gyngor ynghylch gofynion cyfreithiol
- Anwybyddu gofynion cyfreithiol er mwyn cael budd ariannol
- Colled ariannol arwyddocaol, posib, neu wirioneddol i drydydd parti

- Hanes o droseddau tebyg
- Torri deddfwriaeth yn barhaus
- Pan fo twyll, esgeulustod difrifol neu ymwybyddiaeth o euogrwydd yn ffactor
- Mân weithredu'n groes i nifer o statudau

18.31 Pan fo modd, rhoddir gwybod i droseddwr y gall erlyniad ddilyn cyn gynted ag y bo digon o dystiolaeth ar gael.  Dygir pob erlyniad heb oedi diangen.

18.32 Bydd y Cyngor yn ceisio uchafu ein heffeithiolrwydd drwy weithio ag awdurdodau ac asiantaethau eraill pan fo hynny'n briodol, rhannu gwybodaeth pan fo'n gyfreithlon gwneud hynny a chynnal gweithrediadau ar y cyd pan fo'n fanteisiol gwneud hynny.

**Elw Troseddol**

18.33 Mewn achosion priodol, gellir gwneud cais dan y Ddeddf Elw Troseddau i atafaelu asedau i adennill yr elw ariannol y mae'r troseddwr wedi'i gael drwy ymddwyn yn anghyfreithlon. Cymerir camau cyfreithiol yn unol â safonau prawf sifil a gwneud ceisiadau unwaith y bydd collfarn wedi'i diogelu ond cyn dedfrydu'r troseddwr.

**Cyfarwyddwyr**

18.34 Pan fydd rheoliadau'n cael eu torri'n ddifrifol o ran caniatâd, cyfleustra neu sydd wedi'u priodoli ag unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd i gorff, gellir cymryd camau corfforaethol ffurfiol yn erbyn y person hwnnw.

18.35 Os bydd cyfarwyddwr cwmni'n cael euogfarn o drosedd, gall yr Awdurdod gyflwyno cais i'r llys sy'n dedfrydu i gyflwyno gorchymyn anghymhwyso o dan y Ddeddf Diarddel Cyfarwyddwyr Cwmnïau.

**Hawliadau sifil**

18.36 Ni fydd Cyngor Gwynedd yn cynorthwyo, oni bai eu bod dan ymrwymiad statudol i wneud hynny , gydag unrhyw hawliadau sifil am iawndal neu unrhyw gywiriad arall a geisir gan unrhyw barti arall.

**Cyhoeddusrwydd**

18.37 Gallai'r Cyngor ddewis cyhoeddi erlyniad llwyddiannus unrhyw droseddwr, er mwyn addysgu ac atal troseddau pellach debyg.

## 19 Hygyrchedd a Chyngor

**Ein manylion cyswllt:**

| | |
|---|---|
| Drwy'r post: | Gwarchod y Cyhoedd, Adran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, Pencadlys, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH<br><br>Gwarchod y Cyhoedd, Adran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, Swyddfa Ardal Meirionnydd, Cae Penarlâg, Dolgellau, LL40 2YB<br><br>Gwarchod y Cyhoedd, Adran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, Swyddfa Ardal Dwyfor, Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Pwllheli, LL53 5AA. |
| Rhif Ffôn: | 01766 771000 |
| E-bost: | GYC@gwynedd.llyw.cymru |
| Gwefan: | www.gwynedd.llyw.cymru |

Oriau agor: 09.00 – 16.00 (Llun i Gwener)
**(Noder na allwn dderbyn ymwelwyr personol heb apwyntiad)**

Am gyngor i ddefnyddwyr, cysylltwch â Llinell Gymorth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth:

Rhif ffôn: 0800 702 2020
Gwefan: www.citizensadvice.org.uk/cymru

## 20 Adborth a Sylwadau

Rydym yn croesawu adborth ar y polisi hwn, neu unrhyw un o'n polisïau eraill. Cyfeiriwch unrhyw adborth neu sylwadau ar y Polisi Gorfodaeth hwn i:

Pennaeth Cynorthwyol
Adran yr Amgylchedd
Cyngor Gwynedd,
Pencadlys
Caernarfon,
Gwynedd LL55 1SH

Cysylltwch â ni trwy ein gwefan www.gwynedd.llyw.cymru

Gellir darparu'r polisi hwn mewn fformatau a chyfryngau amrywiol ar gais.

# ATODIAD 2

## Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

**Awdur:** Lewis Alun Evans (AMG)

**Dyddiad:** 3/26/2025 12:00:00 AM

**Fersiwn:** 1

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

**1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?**

- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

Mae Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd yn gorfodi ystod eang o ddeddfwriaethau ar ran y Cyngor. Er mwyn sicrhau fod gwaith gorfodaeth yn dilyn trefn gyfreithiol gywir, yn dryloyw a theg mae angen eglurder ar sut y byddwn yn cyflawni hyn.

Mae'r ddogfen da sylw, sef polisi gorfodaeth, yn amlinellu sut bydd y gwasanaeth yn ymdrin a materion gorfodaeth- mae'n gosod fframwaith ar gyfer y gwaith.

Bydd swyddogion gorfodaeth yn gorfod cyfarwyddo eu hunain gyda'r polisi a sicrhau eu bod yn ei ddilyn; ac yn medru tystiolaethu eu bod wedi dilyn y polisi pe bai'r angen yn codi – er enghraifft, mewn achos llys.

Bydd y ddogfen ar gael i fusnesau a thrigolion Gwynedd fel bod modd i unrhyw un sy'n destun camau gorfodaeth gan y gwasanaeth sefydlu fod trefn deg wedi ei ddilyn.

Polisi cyffredinol ydyw, ar gyfer holl wasanaethau gwarchod y cyhoedd.

**2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

Nod y polisi gorfodaeth yw egluro ein dull gorfodaeth yn y meysydd gwasanaeth yr ydym yn ymdrin â hwy mewn modd clir a chryno.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

Y prif grwpiau yw:

1. Dinasyddion Gwynedd
2. Busnesau Gwynedd
3. Cynghorwyr Cyngor Gwynedd
4. Swyddogion y Cyngor

## CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Rhannol

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| **Asesu a dysgu gan unrhyw gwyn am y gwasanaeth a dderbynnir** | **Er enghraifft , cofnodwyd tri cwyn am wasanaeth ar gyfer gwasanaethau gwarchod y cyhoedd dros 2024-25** | **parhaol** |
| **Ailddechrau cynnal arolygon gofal cwsmer** | | **Cynnal holiaduron gofal cwsmer – cyswllt dros y ffon gyda canran o unigolion sydd wedi ymostwng cais am wasanaeth dros y mis blaenorol – wedi ei dewis ar hap o restr.** |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol | Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol |
|---|---|---|
| **Hil** | Rydym yn asesu pob gwyn a dderbynnir am y gwasanaeth i asesu'r effaith ar unigolion. Bydd swyddogion hefyd yn trafod materion rheolaethol gyda busnesau / unigolion allan yn y maes ac adrodd unrhyw bryder i reolwyr fel fod modd addasu/ newid trefniadau lle adnabyddir yr angen. Bydd cynrychiolwyr y gwasanaeth hefyd yn derbyn hyfforddiant perthnasol.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn medru darparu canllawiau a gwybodaeth mewn sawl iaith ac rydym gyda mynediad i wasanaeth cyfieithu / cyfieithu ar y pryd cenedlaethol. | Ystyrir y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol gan y bydd yn rhoi arweiniad clir ar drefniadau gorfodaeth i bawb , heb wahaniaethu mewn perthynas ag unrhyw nodwedd. |
| **Anabledd** | Rydym yn gwneud trefniadau ar gyfer unigolion yn unol a'u gofynion ac yn cofnodi hyn - er | Mae'r polisi yn cynnig eglurder am be ddylid / rydym yn fodlon ei gynnig ran darpariaeth data a ymgysylltu |

| | | |
|---|---|---|
| | enghraifft, cynnig hyblygrwydd ran cwrdd ag unigolion yn eu cartref/ man o'u dewis. Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael. Os ydy unigolyn angen cymorth gan eraill wrth ddelio gyda ni medrwn ymgorffori hyn yn ein trefniadau . | gyda unigolion er mwyn sicrhau nad oes dim ansicrwydd/ diffyg dealltwriaeth mewn perthynas a camu gorfodaeth ganddom. Medrwn hefyd drefnu fod copi o'r polisi ar gael mewn print mawr a braille. Bydd pob ymdrech resymol yn cael ei gymryd i sicrhau fod unigolion yn derbyn y polisi sy'n addas ar eu cyfer. |
| **Rhyw** | Nid ydym yn casglu gwybodaeth penodol am yr nodwedd yma | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Oedran** | Mae elfennau o'r gwasanaeth a ddarparir yn ymwneud a traws doriad cymdeithas, o blant a phobl ifanc i'r henoed. Mae gan swyddogion brofiad o ddelio gyda phlant a phobl ifanc /oedolion ai gwarchodwyr/ cynrychiolwyr. Mae swyddogion yn ymwybodol o addasiadau a ddylid ei wneud dan amgylchiadau penodol - ymweliadau i gartrefi, cyfrinachedd ayb | Mae'r polisi yn gadarnhaol yn nhermau gosod fframwaith ar gyfer delio 'n deg gydag unrhyw unigolyn, beth bynnag yw eu hoedran |
| **Crefydd a Chred** | Mae swyddogion sy'n cymryd camau gorfodaeth yn ymwybodol o brif gymunedau ffydd yn y Sir . maent hefyd yn ymwybodol o drefniadau a daliadau ffydd mewn perthynas a ymddygiad at eraill, gofynion gwyliau a gweithgareddau crefyddol ac ati. Lle nad yw swyddog yn ymwybodol o faterion fwy sbesiffig byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i gwrdd a unrhyw ofynion penodol. | Rhagwelir na fydd y polisi yn cael effaith negyddol ar faterion crefydd a chred. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Fydd swyddogion y gwasanaeth yn trin pawb gyda parch ac urddas. Rydym yn asesu pob cwyn a dderbynnir am y gwasanaeth. | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| **Ail-bennu rhywedd** | Byddwn yn cofnodi unrhyw gyfarwyddyd gan unigolyn mewn perthynas a sut i gyfeirio atynt ac yn dilyn hyn lle fo'n gyfreithiol gywir i wneud hynny. Lle bydd camgymeriad yn cael ei wneud byddwn yn adnabod hynny ac ymddiheuro cyn symud mlaen i sicrhau na fydd ail adrodd | Does dim effaith negyddol wedi ei adnabod |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Does dim data yn cael ei gasglu yn benodol am hyn | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Rydym yn nodi os yw unigolyn yn feichiog mewn perthynas a gwaith ymchwil i achosion o wenwyn bwyd / materion iechyd cyhoeddus oherwydd cynnydd bosib mewn risgiau penodol - defnyddir y wybodaeth yma i gyfarwyddo/ penderfynu ar orfodaeth dan rhai amgylchiadau | Dim effaith wedi ei adnabod |
| **Iaith Gymraeg** | Mae'r Gwasanaeth / swyddogion yn dilyn polisi'r Cyngor mewn perthynas ar iaith Gymraeg | Does dim effaith wedi ei adnabod - mae'r polisi gorfodaeth yn cyd fynd ar polisi iaith corfforaethol |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Rydym fel gwasanaeth yn cymryd camau gorfodaeth i ddelio gyda busnesau sy'n gweithredu'n anghyfreithlon. Drwy ddelio a'r busnesau hyn rydym yn cynorthwyo busnesau cyfreithlon i fedru llewyrchu heb eu bod yn cystadlu dan amgylchiadau annheg. Mae rhan o'n gwaith hefyd yn ymwneud a delio gyda problemau amgylcheddol / ymddygiadau gwrthgymdeithasol sydd yn tueddu i fod yn fwy cyffredin mewn ardaloedd difreintiedig. | Ystyrir bydd y polisi yn cynnig effaith gadarnhaol drwy ddarparu eglurder pellach ar drefniadau gorfodaeth y gwasanaeth |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghys a'u Teuluoedd** | Nid ydy yn casglu gwybodaeth am y nodweddion hyn. | Dim effaith wedi ei adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| **Hawliau Dynol** | Rydym yn dilyn polisiau corfforaeth y Cyngor mewn perthynas ar erthyglau haliau dynol . Mae' nifer o'r erthyglau yn ystyriaethau yn ein trefniadau gorfodaeth. Bydd profion hawliau dynol yn cael eu gosod ar ein erlyniadau er mwyn sicrhau ein cydymffurfiaeth ar gofynion | Dylid fod yr polisi yn cynnig effaith gadarnhaol - yn cynnig trefn gorfodaeth cyfraith iechyd yr amgylchedd wedi ei selio ar egwyddorion hawliau dynol a nifer o'r erthyglau penodol |
| **Arall** | Mae'n ofynnol i swyddogion adrodd unrhyw enghraifft o gaethwasiaeth fodern amheuir. Yn yr un modd, rhaid iddynt adrodd unrhyw achos o gam drin plant bosib | Dim effaith wedi ei adnabod |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Rydym wedi adnabod bwlch data ac yn edrych i ail ddechrau trefn derbyn adborth cwsmeriaid drwy arolygon boddhad cwsmer - cynnal holiadur dros y ffon neu gwahodd adborth drwy ein gwefan

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Dim wedi ei adnabod

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Trefn i'w ddilyn ar gyfer gwaith gorfodaeth Gwasanaethau gwarchod y Cyhoedd sydd dan sylw. Dylid fodd y cyfarwyddiadau yn galluogi swyddogion i ymgymryd a gwaith gorfodaeth yn , ddiduedd , rhesymol a pharchus.

Gobeithir y bydd y polisi yn hybu dulliau effeithlon ac effeithiol o gynnal archwiliadau a gorfodaeth rheoleiddio allweddol heb greu byrdwn diangen gyda'r canlyniad:

-Lleihau anghydraddoldebau iechyd

-Lleihau digwyddiadau o wenwyn bwyd a digwyddiadau niferus o afiechydon ymysg anifeiliaid

-Sicrhau bod llai o ddamweiniau, anafiadau ac afiechydon yn digwydd i weithwyr yn eu gwaith

-Sicrhau llai o lygredd a throseddau amgylcheddol

-Cyfrannu tuag at gymunedau mwy diogel a cryfach

-Sicrhau gwell lefelau o gydymffurfiaeth gan fusnesau

Dylid fo'r polisi yn sicrhau fod pob busnes ac unigolyn yn derbyn yr un gwasanaeth.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Dylid fod gwaith gorfodaeth yn hyrwyddo cyfleon cyfartal i fusnesau cyfreithlon tra'n mynd i'r afael a busnesau anghyfreithlon

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Rydym yn dilyn polisi iaith y Cyngor. Mae ein gohebiaeth ar gael yn ddwyieithog . Iaith y swyddfa ydy Cymraeg

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Bydd y polisi yn ein cynorthwyo i weithio mewn modd sy'n dilyn y 5 ffordd o weithio a restrir yn y Ddeddf sef ystyried effeithiau hir dymor, atal, gweithio integredig, gweithio ar y cyd a chynnwys /derbyn barn unigolion o bob oedran wrth ddod i benderfyniadau / casgliadau . Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy roi pobl Gwynedd yn ganolog i bob peth rydym yn ei wneud.

Mae'r Cyngor wedi nodi 7 maes blaenoriaeth fydd yn ffocws ein ymdrechion dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd y polisi gorfodaeth yn cynorthwyo gwasanaethau gwarchod y cyhoedd i gyflawni yn enwedig mewn perthynas ar meysydd canlynol :

**Gwynedd Ofalgar**

Cefnogi Trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau. Mae'r swyddogion yn cynnal ymyraethau yn cynnwys archwiliadau a darparu cyngor i fusnesau drwy'r Sir. Mae'r ymyraethau yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda ystod eang o reoliadau . Mae hyn yn ei dro yn sicrhau fod busnesau a unigolion yn gweithredu mewn modd gyfrifol . Bydd swyddogion yn annog busnesau a phobl i wella eu safonau, a drwy hyn sicrhau gwelliant mewn amgylchiadau trigolion ac ymwelwyr.

**Gwynedd Lewyrchus**

Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion. Mae'r gwasanaethau'n ymdrechu i sicrhau nad yw busnesau yng Ngwynedd yn achosi problemau iechyd / amgylcheddol neu'n tanseilio busnesau eraill. Gall tor cyfraith greu difrod economaidd sylweddol drwy: -Dioddefwyr salwch o ganlyniad i dor cyfraith yn methu gweithio a derbyn triniaeth feddygol - Busnesau a gysylltir gydag achosion yn colli eu 'henw da' a chwsmeriaid. -Cyhoeddusrwydd negyddol yn cael effaith andwyol ar niferoedd ymwelwyr i'r ardal. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda busnesau dilys i sicrhau cydymffurfiaeth a gofynion rheolaethol a chymryd camau pendant i ddelio gyda busnesau sy'n dewis peidio. Darparir cyngor a chymorth i fusnesau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion eu cwsmeriaid, yn cynnig cyflogaeth yn lleol ac yn cynhyrchu proffid i fuddsoddwyr. Mae monitro a chynghori ar safonau rheolaethol yn cynorthwyo cynnal economi deg a chynaliadwy.

## CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â  sefydliad(au) eraill?**

Na fydd

## CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Mae Pennaeth Adran Amgylchedd wedi ei awdurdodi i orfodi deddfwriaeth penodol ar ran y Cyngor. Fel rhan o drefn cynllun dirprwyo pwerau'r  Cyngor mae'r awdurdodiad yma wedi ei gyflwyno i swyddogion ar gyfer cynnal camau gorfodaeth i ddelio gyda tor cyfraith a adnabyddir..  Mae'r polisi yn cynnig trefn i swyddogion ei ddilyn wrth ystyried defnydd camau gorfodaeth. Nod y polisi ydy sicrhau fod unrhyw weithrediad gorfodaeth yn deg, gymesurol ac yn glir .

Mae'r polisi  hefyd yn cynnig eglurder i unigolion a busnesau ran  deall sut a pham mae'r Adran yn cymryd camau gorfodaeth.  Ystyrir fod hyn yn effaith gadarnhaol

**Effaith Negyddol Sylweddol:**
Nid ydym yn ystyried fod y polisi yn debygol o gael effiath negyddol sylweddol.

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Nid oes effaith negyddol bwriadol wedi ei adnabod

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Ddim yn berthnasol

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Lle byddwn yn ceisio adborth cwsmeriaid medrwn ddefnyddio unrhyw wybodaeth perthnasol i gryfhau'r polisi

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Dim wedi ei adnabod hyd yn hyn, ond byddwn yn edrych ar newidiadau / ddiwygio yn dilyn adborth

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Dim wedi ei adnabod

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arewiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Derbyn adborth defnyddwyr gwasanaeth | 10/3/2025 12:00:00 AM | Rheolaid- 1 i 2 fis | Rheolwr IyA | Na |
| Monitro cwynion am y gwasanaeth | 10/3/2025 12:00:00 AM | Parhaus | Rheolwr IyA | Na |
| Cynnal asesaid effaith wedi camau gorfodaeth / erlyniad | 10/3/2025 12:00:00 AM | Parhaus | Rheolwr IyA | Na |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth** |
|---|---|---|---|
| Adolygiad o'r polisi | Bob 2 flynedd | Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd | Na |